## PWYLLGOR ADDYSG CYN 16 OED, YSGOLION AC ADDYSG GYNNAR

## ADRODDIAD I'R CYNULLIAD CENEDLAETHOL

### Cyflwyniad

Mae'r Pwyllgor Addysg Cyn 16 Oed, Ysgolion ac Addysg Gynnar yn un o chwe phwyllgor pwnc y Cynulliad. Gwneir yr adroddiad o dan Reol Sefydlog 9.9 sy'n caniatáu i'r Pwyllgor adrodd i'r Cynulliad o bryd i'w gilydd wrth gyflawni ei raglen waith.

Cadeirydd y Pwyllgor yw William Graham. Yr aelodau yw Lorraine Barrett; Rosemary Butler (Ysgrifennydd y Cynulliad); Christine Chapman (Is-Ysgrifennydd y Cynulliad); Pauline Jarman; Gareth Jones; Huw Lewis; John Marek; Jonathan Morgan; Jenny Randerson ac Owen John Thomas.

Erbyn diwedd y flwyddyn gyntaf, bydd y Pwyllgor wedi cynnal cyfanswm o ddau gyfarfod ar hugain. Mae rhai cyfarfodydd wedi'u cynnal ar y cyd â phwyllgorau pwnc eraill lle'r oedd y testun o ddiddordeb cyffredin, megis y cynigion ETAG a'r Comisiynydd Plant. Bydd wedi ymweld â Techniquest a bydd yr Aelodau wedi ymweld â nifer o sefydliadau addysgol.

### Swyddogaethau'r Pwyllgor

Mae teitl llawn y Pwyllgor yn rhoi syniad o faint mor eang yw ei gyfrifoldebau sy'n adlewyrchu rhai Rosemary Butler fel Ysgrifennydd y Cynulliad dros Addysg a Phlant. Mae cylch gwaith y Pwyllgor yn cynnwys:

- Addysg y blynyddoedd cynnar ac addysg mewn meithrinfeydd yng Nghymru;
- Safonau addysg yn ysgolion Cymru, gan gynnwys gweithgareddau Estyn o ran arolygu ysgolion;
- Trefniadaeth ysgolion Cymru, gan gynnwys cyfuno a chau ysgolion;
- Goruchwylio Awdurdodau Addysg Lleol;
- Y Cwricwlwm Cenedlaethol yng Nghymru;
- Anghenion Addysgol Arbennig y disgyblion;
- Goruchwylio gweithgareddau Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru a phob cymhwyster academaidd ac eithrio graddau a chymwysterau cyfatebol neu gymwysterau uwch.
- Ariannu ysgolion sefydledig yng Nghymru;
- Safonau addysgu yng Nghymru, gan gynnwys gweithgareddau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru a recriwtio athrawon;
- Arfarnu athrawon, ond nid eu cyflogau a'u hamodau; a
- Chyfrifoldeb traws-bynciol am faterion sy'n ymwneud â phlant.

Wrth ymgymryd â'i gyfrifoldebau, mae'r Pwyllgor yn cymryd rhan yn y broses o adolygu a datblygu polisïau sy'n rhoi hunaniaeth Gymreig unigryw i addysg.

Mae gan y Pwyllgor nifer o faterion traws-bynciol gyda'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol lle y mae addysg a gofal plant yn cwrdd â'i gilydd e.e. darpariaeth ar gyfer plant o dan oedran ysgol, plant sy'n destun gofal a phlant ag anghenion arbennig. Mae'r ddau Bwyllgor wedi gweithio'n agos ar Adroddiad Waterhouse a'r Comisiynydd Plant. Mae'r ddarpariaeth addysgol ar gyfer myfyrwyr ar ôl 16 oed mewn ysgolion yn disgyn ar ysgwyddau'r Pwyllgor Cyn 16 Oed, cyfrifoldeb y Pwyllgor Addysg ar ôl 16 oed yw addysg a hyfforddiant i bobl ifanc mewn colegau addysg bellach a darparu hyfforddiant arall i bobl ifanc dros 16 oed. Ystyriodd y Pwyllgor Cyn 16 Oed gynigion yr ETAG gyda'r Pwyllgor ar ôl 16 Oed lle'r oeddent yn effeithio ar y chweched dosbarth a bydd y Pwyllgorau yn mynd ymlaen ar y cyd â gwaith ar fframwaith cymwysterau ar ôl 16 oed yng Nghymru. Roedd y pwyllgor yn pryderu na allai ddarparu mwy o amser i drafod cynigion yr ETAG yn fwy manwl.

Wrth gyflawni ei swyddogaethau, mae'r Pwyllgor yn ceisio cyfrannu at gyflawni'r nodau a'r amcanion a amlinellir yng nghynllun strategol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, sef www.gwellcymru.com. Yn arbennig, o ran gwneud Cymru yn wlad ffynnus, dysgedig, medrus, iach, ac amgylcheddol gyfoethog lle y 'mae'n rhaid rhoi pob cyfle i bobl ifanc gyflawni eu potensial.'

**Dulliau gweithio**

Mae'r Pwyllgor wedi bod yn awyddus i ddatblygu arddull agored o weithio sy'n annog pawb i gymryd rhan. Mae pob un o'i gyfarfodydd wedi'u cynnal yn gyhoeddus. Mae wedi gwahodd nifer o gyrff allanol i gyfrannu i'r drafodaeth, er enghraifft, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, ACCAC, Estyn, Llywodraethwyr Cymru, Undebau Athrawon a Busnes yn y Gymuned.

Mae Cadeiryddion a chynrychiolwyr Pwyllgorau eraill wedi'u gwahodd i fynychu a chymryd rhan yn y drafodaeth ar faterion o ddiddordeb cyffredin ac mae Mrs Barrett wedi cynrychioli'r Pwyllgor ar y Comisiynydd Plant yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae'r Pwyllgor hefyd yn elwa trwy fod rhai o'i aelodau hefyd yn aelodau ar Bwyllgorau eraill megis y Pwyllgor Addysg ar ôl 16 Oed a'r Pwyllgor Cyfle Cyfartal.

Mae'r Aelodau wedi ymgymryd â nifer o ymweliadau - fel Pwyllgor llawn â Techniquest, ac fel grwpiau bychain yn cynrychioli'r Pwyllgor, â nifer o ysgolion yn cwmpasu'r ystod lawn o ddarpariaeth addysgol. Mae'r Pwyllgor yn ystyried ei ymweliadau ag ysgolion a sefydliadau addysgol yn allweddol i gyflawni ei rôl, yn arbennig felly o ran datblygu polisi.

Hefyd, mae'r Pwyllgor wedi cynnal nifer o sesiynau briffio ar faterion penodol ym maes addysg e.e. y Fenter Cyllid Preifat; y rhaglen Grantiau Cynnal Addysg a

Hyfforddiant, y Mesur Hawliau'r Anabl – goblygiadau i ysgolion a'r Comisiwn Archwilio.

O bryd i'w gilydd, mae'r Comisiwn wedi dangos pryder ynghylch nifer y materion allweddol sy'n dod ger ei fron. Ar rai achlysuron, canlyniad hyn fu torri'n fyr y drafodaeth ar faterion. Trwy gydnabod hyn, mae'r Pwyllgor hefyd yn ymwybodol nad oes digon o amser i drafod llawer o faterion ac, felly, nid oes dewis gennym ond eu rhoi ar yr agenda. Mae'n broblem sy'n wynebu pob Pwyllgor. Ar rai achlysuron, mae'r Pwyllgor wedi sefydlu grŵp o adroddwyr i ystyried mater yn fanwl y tu allan i'r cyfarfodydd Pwyllgor ffurfiol ac i adrodd ar ei gasgliadau a'i argymhellion i'r Pwyllgor llawn. Cafwyd y dull hwn yn arbennig o ddefnyddiol o ran ystyried Adolygiad y Cwricwlwm Cenedlaethol.

Mae'r Pwyllgor yn dymuno cofnodi ei werthfawrogiad am y gefnogaeth y mae wedi'i derbyn gan swyddogion yr Adran Addysg dan arweiniad Richard Davies. Mae papurau yn cefnogi'r materion i'w hystyried wedi bod yn gymorth ac mae parodrwydd y swyddogion i gyfrannu at ystyriaeth y Pwyllgor mewn modd didwyll a chlir wedi bod yn arbennig o werthfawr.

**Blaenoriaethau**

Mae "www.gwellcymru.com" yn amlinellu gweledigaeth hir-dymor am well Cymru ac mae'n clustnodi ugain o gamau penodol i helpu i osod yr agenda newydd hon. Bydd y Pwyllgor yn chwarae rhan bwysig wrth fwrw ymlaen â'r meysydd gweithredu sy'n gysylltiedig ag addysg ac wrth fonitro'r hyn sydd wedi'i wneud yn erbyn meincnodau 2010 a amlinellir ym Mhennod 3 o dan 'Dysgu a dinasyddiaeth weithredol'.

Amlinellir yr egwyddorion fframwaith a gytunwyd gan y Pwyllgor ar gyfer polisi addysg yng Nghymru mewn papur sy'n amgaeëdig gyda'r adroddiad hwn ar ffurf Atodiad A. Yr egwyddorion cyffredinol yw sicrhau bod addysg:

- o safon uchel i bawb;
- ei fod yn gynhwysol; a'i fod
- wedi'i seilio ar sefydlu partneriaethau.

Yn ategu'r egwyddorion hyn, y mae ymrwymiad i gyfle cyfartal a chynaliadwyedd. Mae'r Pwyllgor hefyd yn cyfeirio at gynlluniau statudol y Cynulliad Cenedlaethol o ran ei berthynas â'r awdurdodau lleol a'r sector gwirfoddol, a'r cynllun datblygu cynaliadwy.

**Datblygu Polisi**

Penderfynodd y Pwyllgor dreulio canran uchel o'i amser yn datblygu polisi ar gyfer materion penodol y gellir eu clustnodi a fydd yn helpu i ddarparu addysg yng Nghymru er mwyn sicrhau y gwireddir potensial pob plentyn ac y datblygir statws Cymru fel gwlad lle y rhoddir pwyslais ar addysg. Mae wedi dechrau

gwaith ar dri adolygiad ac mae wedi pennu nifer o rai eraill y mae am eu hystyried yn ystod sesiwn bresennol y Cynulliad.

### *Darpariaeth y Blynyddoedd Cynnar i Blant Tair Oed*

Roedd swyddogaeth yr adolygiad polisi hwn fel a ganlyn:

- Ystyried patrwm presennol y ddarpariaeth addysgol i blant 3 oed;
- Asesu a fyddai ehangu'r ddarpariaeth o fudd i'r plant o ran eu haddysg a'u datblygiad;
- Byddai asesu costau'r fath ehangiad yn rhoi baich newydd ar ysgwyddau'r awdurdodau lleol a byddai angen cydnabod hyn wrth eu cyllido;
- Asesu effaith yr ehangiad ar allu'r cylchoedd chwarae a'r darparwyr preifat i ddarparu gofal i blant o dan oedran ysgol gorfodol;
- Gwneud argymhellion i Ysgrifennydd y Cynulliad dros Addysg a Phlant o ran polisi at y dyfodol.

Ymgynghorodd y Pwyllgor yn eang ar y mater hwn a chyflwynwyd ei ystyriaeth gychwynnol a'r cyfraniadau a wnaed gan bawb yr ymgynghorwyd â hwy yn y cyfarfod llawn ar 4 Ebrill 2000. Daeth y Pwyllgor i nifer o gasgliadau a amlinellir yn ei Adroddiad Interim. Yn allweddol ymysg y rhain roedd y penderfyniad i benodi ymgynghorydd arbenigol i gynorthwyo'r Pwyllgor i werthuso'r cyfoeth o wybodaeth sydd ger ei fron ac i glustnodi a datblygu modelau sy'n berthnasol i gyfoethogi a chynyddu'r ddarpariaeth yng Nghymru sy'n ategu'r mentrau gofal plant a mentrau addysg y blynyddoedd cynnar sydd ar gael ar hyn o bryd. Ar 1 Ebrill, penodwyd Mrs Margaret Hanney, uwch ddarlithydd ar y blynyddoedd cynnar yn Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd.

Cyflwynodd Mrs Hanney ei hadroddiad terfynol i'r Pwyllgor yn ei gyfarfod ar 29 Mehefin 2000. Ystyriodd y Pwyllgor ei chynigion yn ofalus a chytunodd i wahodd yr holl fudiadau, a oedd wedi cyfrannu'n flaenorol i'r drafodaeth, i wneud sylwadau ar yr argymhellion. Bydd y Pwyllgor yn ystyried y sylwadau hyn mewn cyfarfod yn nhymor yr hydref cyn terfynu ei adroddiad a'i gyflwyno'n ffurfiol i Ysgrifennydd y Cynulliad.

### *Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu mewn Addysg yng Nghymru*

Dechreuodd y Pwyllgor yr adolygiad polisi hwn drwy edrych ar y broses o brynu Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGaCh) i ysgolion gan yr Awdurdodau Addysg Lleol. Fodd bynnag, o ganlyniad i'r ymatebion ymgynghori a'r cyflwyniadau a dderbyniwyd gan y Pwyllgor oddi wrth nifer o gyrff, penderfynodd y Pwyllgor ehangu ei swyddogaethau i edrych ar TGaCh mewn Addysg yng Nghymru fel cyfanbeth. Gofynnodd y Pwyllgor i Huw Lewis a Jonathan Morgan arwain yr adolygiad polisi hwn ac maent wedi ymweld â Chyngor Technoleg Addysgol yr Alban, Asiantaeth Cyfathrebu a Thechnoleg Addysgol Prydain (BECTA) a'r Adran Addysg a Gwyddoniaeth yn Iwerddon

Mae'r Pwyllgor wedi penodi Neil Harries fel ei ymgynghorydd arbenigol i gynorthwyo â'r adolygiad hwn, yn arbennig felly ar elfennau technegol y materion y mae wedi bod yn eu hystyried. Mae'r Pwyllgor yn gwbl ymwybodol bod llawer o waith yn cael ei wneud ar TGaCh yn y cyd-destun ehangach ac mae diddordeb arbennig gan y Pwyllgor Datblygu Economaidd a'r Pwyllgor Addysg ar ôl 16 oed. Byddaf yn sicrhau bod Cadeiryddion y ddau Bwyllgor hwn yn gwybod am hynt yr adolygiad polisi. Am y rheswm hwn, mae'r Pwyllgor hefyd wedi rhoi rhan i'w chwarae i swyddog y Cynulliad Cenedlaethol, Nick Batey (sydd â chyfrifoldeb am ddatblygu Strategaeth TGaCh Genedlaethol i Gymru) yn y broses o'i ystyried a chasglu gwybodaeth amdano. Bwriad y Pwyllgor yw gweithio gyda'r cyrff sydd â buddiant yn hyn er mwyn sicrhau bod yr hyn a gynhyrchir yn y diwedd yn rhan o ddull cyfannol o gyflwyno TGaCh yng Nghymru. Dyma ddyfodol Cymru ac mae'r bobl ifanc yn ein hysgolion yn rhan o'r dyfodol hwnnw ac mae cyfrifoldeb gennym i sicrhau y gallant fanteisio'n llawn ar hynny.

Mae'r Pwyllgor wedi penderfynu y dylai ei gylch gwaith gynnwys:

- Archwiliad o'r manteision o ddatblygu Cytundeb ar Fframwaith Cenedlaethol i gynorthwyo pwrcasu er mwyn cael manteision wrth swmp-brynu;
- Ymchwilio i'r rhesymau pam nad yw'r gwasanaeth BECTA sydd wedi cael nod y barcud yn ateb anghenion AALl'au Cymru, ac edrych am ffyrdd i wella hyn mewn cydweithrediad â Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru (ADEW);
- Archwilio gyda ADEW, ACCAC ac unrhyw un arall sydd â diddordeb, a yw sefydlu rhwydwaith genedlaethol Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu yn y sector gyhoeddus yn bosibl yng Nghymru, a'r amser ac adnoddau sydd eu hangen ar gyfer sefydlu rhwydwaith o'r fath;
- Ymchwilio i ffyrdd o gael mwy o gydweithrediad ledled Cymru wrth ddatblygu meddalwedd addysgol dwyieithog sy'n cyd-fynd â'r Cwricwlwm Cenedlaethol;
- Adolygu'r hyfforddiant ar TGaCh a roddir i athrawon yng Nghymru, a'r cymorth sydd ar gael iddynt ar ddefnyddio'r TGaCh i gyflwyno'r Cwricwlwm Cenedlaethol, yn ystod eu hyfforddiant ac wedi hynny, fel eu bod yn parhau i gael y wybodaeth ddiweddaraf ar ddatblygiadau TGaCh;
- Creu tîm sy'n ymdrin â'r Grid Cenedlaethol ar gyfer Dysgu, Cymru (NGfL) i ddatblygu a chynnal gwefan yr NGfL yng Nghymru sy'n ateb anghenion athrawon.

Mae'r Pwyllgor wedi penderfynu hefyd y dylid cynnal archwiliad o'r TGaCh a geir mewn ysgolion a cholegau, gan adeiladu ar y gwaith a wnaed eisoes gan Gymdeithas Wybodaeth Cymru (WIS). Dylid adolygu'r targed o gysylltu pob ysgol â'r Grid yn ôl yr adroddiad ar yr archwiliad.

Bydd y Pwyllgor yn ystyried ei adroddiad terfynol a'i gasgliadau yn ystod tymor yr hydref, gyda'r bwriad o ddwyn argymhellion gerbron yr Ysgrifennydd Cynulliad ac adrodd yn ôl i'r Cyfarfod Llawn cyn diwedd y flwyddyn bresennol.

**Lleoedd mewn Ysgolion**

Dechreuodd y Pwyllgor ar ei drydydd adolygiad o bolisi yn ystod tymor hwn. Ei gylch gwaith yw edrych ar y lleoedd sydd ar gael mewn ysgolion, ac yn arbennig ar y nifer o leoedd sydd heb eu llenwi, gyda'r bwriad o:

- Bennu'r nifer uchaf sy'n bosibl o leoedd sydd heb eu llenwi, gan ganiatáu hyblygrwydd;
- Pennu'r costau o gadw'r llefydd gwag sydd uwchlaw hyn;
- Clustnodi'r hyn sydd angen i'r awdurdodau lleol ei wneud i reoli eu cyflenwad o leoedd mewn ysgolion.

Bydd y Pwyllgor yn dwyn i ystyriaeth y dystiolaeth ar leoedd mewn ysgolion, sydd ar gael yng Nghynlluniau Trefniadaeth Ysgol yr Awdurdodau Addysg Lleol. Fe fydd hefyd yn dwyn i ystyriaeth adroddiad y Comisiwn Archwilio sef 'Newid Lleoedd', a'r gwaith a wneir gan yr Adran Addysg a Chyflogaeth ar y fethodoleg o bennu maint ysgol. Mae'r Pwyllgor wedi cychwyn ar y broses ymgynghori eisoes, gan wahodd pob AALl'au a sefydliadau pwysig eraill yng Nghymru i fynegi barn ar y testun hwn, fel y gellir eu hystyried. Hefyd, estynodd wahoddiad agored ar ei wefan i gyfrannu drwy lythyr neu e-bost.

Disgwylir ystyriaeth fanwl yn ystod tymor yr hydref a'r gwanwyn, gyda'r bwriad o gyflwyno adroddiad gerbron y Cyfarfod Llawn ar ddiwedd tymor y gwanwyn 2001. Bydd y Pwyllgor gofyn am dystiolaeth lafar gan nifer o gyrff, ac y mae wedi cytuno y bydd dau o'r sesiynau hel tystiolaeth yn cael eu cynnal ym Merthyr Tydfil a Felin-fach yng Ngheredigion. Er bod y Pwyllgor yn canolbwyntio ar agweddau addysgol y polisi, mae goblygiadau i nifer o flaenoriaethau'r Cynulliad Cenedlaethol megis cynhwysiant cymdeithasol a chryfhau ein cymunedau. Bydd y Pwyllgor yn edrych mor fanwl â phosibl ar y mater hwn ac yn hysbysu'r Aelodau o'i ddatblygiad.

## Cyllideb

Ystyriodd y Pwyllgor gyllideb ddrafft y Cynulliad. Roedd yn credu y dylid ystyried cyflwr adeiladau'r ysgolion fel blaenoriaeth. Dywedodd y Pwyllgor bod adroddiad blynyddol Estyn yn mynegi ei bryder bod adeiladau gwael yn effeithio ar waith caled yr athrawon a oedd yn ceisio gwella safonau addysg. Dywedodd hefyd y dylid rhoi blaenoriaeth i faterion sy'n ymwneud ag eithrio cymdeithasol, megis triwantiaeth a gwahardd o'r ysgol.

Gofynnodd y Pwyllgor i bapurau'r gyllideb cael eu cyflwyno yn y dyfodol mewn fformat mwy dealladwy a rhoi disgrifiad fwy manwl o linellau'r gyllideb. Roedd y fformat presennol yn un dryslyd. Erbyn hyn, rydym yn ail gylch y gyllideb, ac rydym wedi dechrau archwilio blaenoriaethau'r Pwyllgor yn erbyn y cynigion ar y gyllideb, bydd y broses hon yn parhau yn y cyfarfod nesaf yfory.

## Cwricwlwm Cenedlaethol i Gymru

Cynhaliodd ACCAC adolygiad helaeth o'r Cwricwlwm Cenedlaethol gyda'r nod pennaf o sicrhau ei fod yn adlewyrchu anghenion ac amgylchiadau Cymru. Roedd y cwricwlwm wedi ei addasu er mwyn lleihau'r baich ar athrawon dosbarth, ac fe wnaed y rhaglenni astudio'n symlach gan fynegi'n fwy clir yr hyn a ddisgwylir ym mhob cyfnod allweddol. At hyn, cynigiwyd y dylid cyflwyno dau fframwaith newydd sy'n ymdrin ag Addysg Bersonol a Chymdeithasol (PSE) ac Addysg sydd yn gysylltiedig â gwaith (WRE). Ystyriodd y Pwyllgor y cynigion a'r rhaglen waith yn fanwl gydag ACCAC, a phenderfynodd bod y gwaith ymgynghori a wnaed gan ACCAC yn briodol ac yn drylwyr ac yn ateb anghenion addysgol disgyblion yng Nghymru.

## Tâl Perfformiad i Athrawon

Mae'r Pwyllgor wedi gwrthwynebu'n gyson y syniad o gysylltu arfarniad athrawon a chanlyniadau'r disgyblion. Mynegwyd y gwrthwynebiad hwn mewn nifer o gyfarfodydd a hefyd mewn cynnig a basiwyd gan y Pwyllgor drwy bleidlais y mwyafrif. Roedd y Pwyllgor yn falch o nodi bod yr Ysgrifennydd Cynulliad wedi dwyn i ystyriaeth y mwyafrif o'u pryderon yn y system rheoli perfformiad terfynol. Er hynny, roeddent yn pryderu bod y meini prawf ar gyfer asesu'r trothwy'r tâl, a bennir ar sail Cymru a Lloegr fel ei gilydd, yn cynnwys cysylltiad uniongyrchol rhwng yr asesiad o berfformiad athrawon a chynnydd disgyblion sy'n seiliedig ar ganlyniadau.

Heriodd y Pwyllgor farn gyfreithiol yr Ysgrifennydd Cynulliad, nad oedd gan y Cynulliad Cenedlaethol yr awdurdod diprwyedig i bennu'r meini prawf ar y pwynt trothwy, am ei fod yn ymwneud â thâl ac amodau gwasanaeth, sy'n fater wrth gefn. Gofynnodd y Pwyllgor am gyngor cyfreithiol annibynnol ar hawl yr

Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg a Chyflogaeth i bennu safonau arbennig ar gyfer asesu perfformiad athrawon mewn perthynas â dyfarniadau tâl, drwy orchymyn tâl ac amodau. Gofynnwyd hefyd a oedd yn gallu, os ydoedd yn dymuno hynny, sefydlu ffordd o bennu tâl athrawon, drwy gyferirio at y system o arfarnu athrawon a ddisgrifir yn Rheoliadau'r Cynulliad 1999.
Y cyngor a gafwyd oddi wrth y cwnsler oedd, tra bod y Cynulliad yn gallu sefydlu system ar gyfer asesu perfformiad athrawon, mae'r pwer i sefydlu cynllun ar gyfer pennu tâl athrawon yn ôl perfformiad yn aros gyda'r Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg a Chyflogaeth.

**Cynllun Gweithredu Addysg a Hyfforddiant (ETAG)**

Cyfarfu'r Pwyllgor ar y cyd â'r Pwyllgor Addysg a Hyfforddiant ar ôl 16 oed, i ystyried meysydd o ddiddordeb cyffredin yn y cynigion ETAG yn enwedig y rhai hynny a oedd yn berthnasol i'r chweched dosbarth. Ar y cyfan, cefnogodd y Pwyllgor Cyn 16 amcanion ETAG, ac argymhellion y Pwyllgor ar ôl 16 a oedd yn cynnwys sefydlu Cyngor Cenedlaethol ar Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru (CETW).

**Adroddiad Waterhouse a'r Comisiynydd Plant**

Ystyriodd y Pwyllgor yn fanwl argymhellion Adroddiad Waterhouse, yn enwedig y rhai hynny â'r goblygiadau addysgol. Yr argymhelliad allweddol oedd y dylid sefydlu Comisiynydd Plant. Y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol oedd yn arwain ar y mater hwn, a gododd o'r angen i ddelio â phryderon ynghylch plant mewn gofal. Gwnaed darpariaeth statudol ar gyfer Comisiynydd Plant yng Nghymru yn y Mesur Safonau Gofal. Cynrychiolodd Mrs Barrett safbwyntiau'r Pwyllgor yn y trafodaethau ar y mater a gafwyd yn y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, a chynhaliwyd cyfarfod ar y cyd gyda'r Pwyllgor hwnnw cyn i'r argymhellion terfynol gael eu gwneud.

Roedd y Pwyllgor yn credu yn dylai cylch gwaith y Comisiynydd Plant gynnwys sefydliadau addysgol, ac yn ei gyfarfod ar 17 Mai cytunodd ar nifer o faterion pwysig yn ymwneud â'r cylch gwaith a'r manyldeb person ar gyfer y swydd. Cafodd safbwyntiau'r Pwyllgor eu dwyn i ystyriaeth gan y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, a'u cynnwys yn ei adroddiad terfynol. Roedd y Pwyllgor o'r farn bod mynegi cyd-destun addysgol rôl y Comisiynydd Plant yn hanfodol, yn ogystal â'r cyd-destun gwasanaethau cymdeithasol a'r pwerau sydd eu hangen i alluogi'r Comisiynydd i weithredu ei gylch gwaith yn llawn. Rydym yn edrych ymlaen at fod yn gysylltiedig â'r weithdrefn benodi, a datblygu ymhellach rôl y Comisiynydd Plant yng Nghymru.

Er mwyn monitro'r hyn a wneir ar argymhellion Adroddiad Waterhouse, fel y cânt eu cymhwyso i ysgolion, cytunodd y Pwyllgor i wahodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i gyfarfod yn y dyfodol er mwyn cael gwybodaeth am yr hyn a wnaed.

## Archwilio Cyrff Cyhoeddus

Mae cyfrifoldeb gan y Pwyllgor dros fonitro ac archwilio ACCAC. Er mwyn cyflawni'r cyfrifoldeb hwn, mynychodd ACCAC gyfarfod o'r Pwyllgor er mwyn trafod ei adroddiad corfforaethol. Mae'r Pwyllgor hefyd yn gweithio gydag ACCAC fel ei ymgynghorydd statudol ar faterion sy'n berthnasol i'r cwricwlwm cenedlaethol.

Er nad oes gan y Pwyllgor gyfrifoldeb statudol dros Estyn, datblygodd berthynas waith dda gydag ef. Mae Miss Susan Lewis, Prif Arolygydd Ysgolion, wedi derbyn gwahoddiadau i fynychu'r Pwyllgor i gyflwyno adroddiad blynyddol Estyn, a chyfrannu at adolygiad y Pwyllgor o bolisïau.

Mae'r Pwyllgor yn gwerthfawrogi cefnogaeth a chyngor y ddau sefydliad hwn, ac yn edrych ymlaen at weithio gyda nhw yn y dyfodol.

## Blaenraglen Waith

Cytunodd y Pwyllgor mai ei flaenoriaethau dros y cyfnod sy'n weddill o Sesiwn y Cynulliad yw:

- Hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol mewn ysgolion;
- Astudio materion sy'n ymwneud â recriwtio athrawon;
- Mynd i'r afael â her Anghenion Addysg Arbennig drwy Gymru;
- Hyrwyddo doniau creadigol, gweithredu cymdeithasol a mentergarwch mewn ysgolion;
- Edrych ar Ysgol y dyfodol – ar gyfer pob oed; addysg pedair awr ar hugain y dydd; tymhorau ysgol newydd; rôl newydd i athrawon; a chysylltiadau newydd rhwng y byd addysg a sectorau eraill;
- Creu partneriaethau effeithiol yn y gymuned;
- Cryfhau dysgu Ieithoedd Modern.

Byddai Strategaeth Plant a Phobl Ifanc yn fater allweddol i'r Pwyllgor i'w ystyried yn y tymor sydd ar ddod. Cytunodd hefyd, ar y cyd â'r Pwyllgor Addysg ar ôl 16, i edrych ar gymwysterau ar ôl 16 yn dilyn y datblygiadau o fewn CETW a chyflwyno maes llafur y chweched dosbarth ym mis Medi 2000.

Bydd y Pwyllgor yn parhau i wahodd sefydliadau sydd â diddordeb mewn addysg i wneud cyflwyniadau er mwyn cyfoethogi ei wybodaeth ar bob agwedd o addysg yng Nghymru, a bydd hefyd yn parhau gyda'r rhaglen o ymweliadau i ysgolion.

## Casgliad

Bu hwn yn sesiwn agoriadol prysur iawn i'r Pwyllgor, lle aeth i'r afael â nifer o bynciau. Fe sefydlodd ei rôl iddo'i hun mewn adolygu a datblygu polisïau, lle dangosodd y gallu i feddwl ymlaen, bod yn ddyfeisgar, yn adeiladol ac yn realistig. Os oes un agwedd sy'n achosi pryder i'r Pwyllgor, diffyg amser ar gyfer ystyried materion yn ôl eu haeddiant yw hwnnw. Roedd hyn yn wir am gynigion ETAG. Felly, pan osodir materion polisi allweddol gerbron y Pwyllgor yn y dyfodol, fe fydd yn ymdrechu i sicrhau bod digon o amser i'w hystyried yn llawn.

Roedd dull y Pwyllgor o gwestiynu'r Ysgrifennydd Cynulliad a'i pholisiau, yn adeiladol ac yn bositif. Mae'r Aelodau wedi mwynhau cyfarfod â nifer fawr o sefydliadau ac unigolion gwahanol sy'n cyfrannu at addysg yng Nghymru. Mae'n gwerthfawrogi eu hymroddiad a'u gwaith caled o ran sicrhau bod sylfaen gadarn i addysg yng Nghymru er mwyn gallu codi i'r lefel o ragoriaeth sy'n addas ar gyfer plant Cymru.

**Pwyllgor Addysg cyn 16 oed, Ysgolion ac Addysg Gynnar**
Mehefin 2000

## Atodiad A


### PWYLLGOR ADDYSG CYN 16 OED, YSGOLION AC ADDYSG GYNNAR

### EGWYDDORION FFRAMWAITH AR GYFER POLISI ADDYSG YNG NGHYMRU

**CEFNDIR**

1. Yn y blynyddoedd diweddar, gwelwyd newid sylweddol ym mhroffil cyrhaeddiad ysgolion Cymru, fel y gwelir yn y dangosyddion allweddol a geir yn yr Atodiad.

2. Mae'r ysgolion wedi gweithio'n ddygn i sicrhau'r cyraeddiadau hyn. Ac eto, mae'r ymarferwyr yn cydnabod bod llawer i'w wneud eto i sicrhau bod momentwm gwelliant yn cael ei gadw; bod potensial pob plentyn yn cael ei wireddu; a bod yr ysgolion yn chwarae eu rhan wrth hyrwyddo statws Cymru fel gwlad sy'n dysgu (nid yn lleiaf i wynebu heriadau economaidd y degawd nesaf). Mae'r heriadau penodol yn cynnwys:-
   - yr amrywiad eang yn lefelau perfformiad disgyblion rhwng ysgolion ac o



     fewn ysgolion penodol
   - y bwlch rhwng perfformiad bechgyn a pherfformiad merched ym mhob un o'r cyfnodau allweddol

- niferoedd y disgyblion sy'n methu â sicrhau cymhwyster cydnabyddedig
- gwella cyflwr adeiladau ysgol
- sicrhau addysg mwy cynhwysol i blant ag anghenion addysgol arbennig
- gwella cyrhaeddiad plant sy'n derbyn gofal
- yr angen i wella perfformiad disgyblion, ym medrau allweddol llythrennedd, rhifedd a TGC fel cam tuag at welliant ehangach yn lefelau cyrhaeddiad disgyblion
- darparu cymorth penodol a dargedir ar y disgyblion sydd debycaf o ymddieithrio
- paratoi pobl ifanc yn well ar gyfer y medrau ehangach y bydd arnynt eu hangen yn eu bywyd fel oedolion.

## EGWYDDORION A PHOLISI

3. Afraid dweud bod addysg yn gysylltiedig â sicrhau datblygiad cymunedol iach, cynhwysiant cymdeithasol, a chreu cyfoeth, ar y cyd â bodlondeb, ymgyfoethogi a mwynhad personol. Awgrymir y dylai ymagwedd y Pwyllgor Pwnc tuag at ddatblygu polisi addysg yng Nghymru sefyll ar yr egwyddorion bras canlynol:


### Ansawdd Uchel i Bawb

- Prif ddiben buddsoddi mewn addysg cyn 16 oed yw **sicrhau gwelliant mewn addysgu a dysgu** yn holl ysgolion Cymru ac i bob disgybl.


- Dylid parhau i feithrin **safonau uchel a disgwyliadau uchel** at y dyfodol. Er y dylid rhoi ystyriaeth briodol a sensitif bob amser i'r amgylchiadau sy'n effeithio ar bob ysgol, a'r amgylchiadau ym mhob ysgol, rhaid ymgyrraedd at safonau uwch os bwriedir i bob disgybl wireddu ei botensial. Fe fydd yn bendant o les i Gymru hefyd os yw'n ddiwylliant o berfformiad uchel, ac yn cael ei gweld felly - sef lle

rhagorol i weithio ac i ddysgu ynddo - o'i gymharu â rhannau eraill o'r DU ac yn rhyngwladol.

- Dylai addysg yng Nghymru **ddatblygu galluoedd moesol, diwylliannol, corfforol, deallusol ac ysbrydol i'r plentyn cyfan a galluoedd pob plentyn**. Yn ei dro dylai hynny gael ei ategu gan gwricwlwm eang a chytbwys, gyda chysylltiadau cydlynnus ag asesiadau statudol, a chyfle priodol i'r athrawon ddefnyddio'u barn broffesiynol. Dylai'r cwricwlwm barhau i ymgorffori'r Cwricwlwm Cymreig fel un o'r gofynion statudol.
- Dylid mynegi'r pwyslais ar welliannau cynyddol mewn **targedau ar gyfer cyrhaeddiad** a thargedau ar gyfer mynd i'r afael â thriwanta, gwella presenoldeb a lleihau gwaharddiadau, a'r rhain i'w pennu ar lefel yr ysgol, y


lefel leol a lefel Cymru gyfan, gan adeiladu ar sail dialog, a'i hadolygu bob blwyddyn. 

- Dylid mynd ati i gadarnhau pwysigrwydd **addysgu da** a swyddogaeth ganolog athrawon. Gofynnir llawer oddi wrth yr athrawon - ac maen nhw yn gofyn llawer oddi wrth eu hunain. Dylid trin eu datblygiad proffesiynol, eu cydnabyddiaeth gyhoeddus a'u gwobrwyon ar delerau sy'n drwyadl ac yn adeiladol - (nid yn lleiaf o ran arweinyddiaeth yn yr ysgolion a chyfraniad hollbwysig penaethiaid a'u cydweithwyr ymhlith yr uwch-reolwyr); cymhwysedd proffesiynol; a gwybodaeth o'r pwnc.




- Dylid trefnu bod gwybodaeth am yr hyn y mae'r athrawon a'r ysgolion yn ei gyflawni ar gael **yn agored ac yn gyhoeddus** cyn belled ag y bo hynny'n gyson â chadw cyfrinachedd ynghylch disgyblion. Dylai'r data perthnasol gael ei gasglu yn ôl safonau uchel a phrotocolau clir sy'n lleihau'r baich ar yr ysgolion a dylid ei gyflwyno mewn ffurf glir a diamwys. Dylai'r fframwaith o asesiadau blynyddol gan athrawon a phrofion ynghyd ag adolygiadau ac arolygon, barhau, er mwyn helpu'r ysgolion i adeiladu ar y cryfderau a goresgyn gwendidau.

**Cynhwysiant**




- Dylai addysg yng Nghymru chwarae rhan gyflawn wrth fynd i'r afael â **dieithrwch cymdeithasol ac economaidd** mewn cymunedau amddifadus, plant a phobl ifanc, gan gynnwys lleiafrifoedd ethnig. Bydd hyn yn gofyn am gydweithio'n agos â chyrff, asiantaethau a gwasanaethau eraill.




- Mae angen gwneud rhagor i **feithrin medrau byw y disgyblion**. Dylid rhoi mwy o bwyslais ar addysg bersonol a chymdeithasol, ac ar baratoi pobl ifanc i fod yn ddinasyddion gweithgar ac ar gyfer byd gwaith. Mae'r gwahanol lwybrau at gymwysterau mewn gwybodaeth, medrau a dealltwriaeth - ar sail lleoliad academaidd, galwedigaethol neu yn y gweithle - yr un mor werthfawr â'i gilydd.

- Dylid rhoi sylw manwl i anghenion **grwpiau o blant sy'n hawdd i'w niweidio** ac sydd mewn perygl o fethu yn yr ysgol - mae'r grwpiau hyn yn cynnwys plant mewn gofal cyhoeddus (plant yn derbyn gofal), plant nad yw Cymraeg na Saesneg yn iaith gyntaf iddynt, plant teithwyr a phobl ifanc anfodlon.




- Dylai'r ddarpariaeth ar gyfer plant ag **anghenion addysgol arbennig** hybu cynhwysiant yn ysgolion y brif ffrwd lle bynnag y bo modd; gosod disgwyliadau uchel ar gyfer pob disgybl; rhoi cymorth i rieni; canolbwyntio ar atal ac ymyrryd yn gynnar a chael ei seilio ar bartneriaethau rhwng yr asiantaethau.
- Dylid mynd i'r afael â **bwlian a chamwahaniaethu** lle bynnag y cânt eu gweld a dylid cael polisïau ataliol ym mhob ysgol.




- Dylid pennu swyddogaeth eglur i **addysg y blynyddoedd cynnar** mewn perthynas â darpariaeth arall i'r grŵp oedran hwn, megis **gofal plant**. Dylid

bod cymysgedd yn lleol o ddarpariaeth o safon uchel ar gyfer yr holl blant tair a phedair oed y mae eu rhieni am eu cael.



- Dylai posibilrwydd **technolegau gwybodaeth a chyfathrebu** i weddnewid y sefyllfa gael ei ddefnyddio mor llawn â phosibl ac mewn ffordd a fydd yn sicrhau bod y cyfleoedd hyn ar gael i **bob** disgybl.


**Partneriaeth Strategol**



- Dylai polisi addysg y Cynulliad Cenedlaethol adlewyrchu **nodweddion ac anghenion penodol** system addysg Cymru ac, yn enwedig, amgylchiadau

penodol ei hysgolion a'i disgyblion – nid y lleiaf o'r rheiny yw'r ddarpariaeth o addysg Gymraeg a chefnogi dwyieithrwydd.

- Dylai'r polisi tuag at addysg **roi gwerth cyhoeddus a bwriadol ar gysondeb a'r angen i leihau'r baich sydd ar ysgolion**. Dylai symud yn ei flaen heb newid cyfeiriad sydyn, a hynny ar sail tystiolaeth feintiol ac ansoddol gadarn, ymgynghori llawn sy'n cynnwys athrawon a chymdeithasau athrawon a lle bo hynny'n bosibl pobl ifanc eu hunain. Dylai datblygu polisi hefyd gynnwys asesu effaith y polisi ar ar ysgolion, awdurdodau addysg lleol ac eraill.



- Dylai addysg plant fod yn **bartneriaeth** rhwng ysgolion, rhieni a'r gymuned ehangach. Dylai cyfraniad y rhieni a'r llywodraethwyr, ynghyd â chyfraniad busnes a'r sector gwirfoddol, gael ei gydnabod a'i werthfawrogi am ei fod yn hanfodol os yw'r ysgolion i lwyddo. Felly hefyd amgueddfeydd a llyfrgelloedd a chyrff eraill sy'n gyfrifol am hybu dealltwriaeth i'r llyfrgelloedd a'r cyrff sy'n gyfrifol am hyrwyddo dealltwriaeth ddiwylliannol a gwyddonol.

- Dylai'r rhan fwyaf o lawer o'r arian ar gyfer addysg cyn 16 oed gael ei **dirprwyo** i'r ysgolion. Dylai'r ysgolion gael rheolaeth lawn dros sut i'w wario i sicrhau canlyniadau addysgol da, a pharhau yn atebol am eu defnydd o'r

adnoddau hyn yn ogystal â bod yn gyfrifol am gyfathrebu â’r rhieni. Dylai’r arian sy’n cael ei gadw ar gyfer y gwasanaethau a ddarperir yn ganolog gan yr awdurdod addysg lleol fod yn gyson â chynorthwyo ysgolion a’u cyrff llywodraetu i sicrhau canlyniadau sy’n gwella’n gyson ar gyfer y plant., Dylai hefyd gymryd barn yr ysgolion i ystyriaeth, bod yn dryloyw a nodi'r canlyniadau a ddymunir.

- Bydd y Cynulliad yn chwarae ei ran wrth fagu partneriaethau a fydd yn ategu addysg plant. **Dylid cynnwys yr awdurdodau lleol yn llawn** wrth gynorthwyo ysgolion gwan ac ysgolion sy'n methu; wrth fuddsoddi yn adnewyddu adeiladau ysgol wrth sicrhau nifer priodol o leoedd yn yr ysgolion; ac wrth roi arweiniad strategol ar gyfer gwella'r ysgolion yn lleol gan gynnwys y partneriaid lleol a chan gyfrannu at gyrraedd amcanion Cymru gyfan.

- Dylai'r addysg a gaiff plant o fewn oriau ysgol gael ei chyd-ategu gan amrywiaeth eang o **weithgareddau cyfoethogi** y tu allan i oriau ysgol. Dylai'r rhain ymestyn y cyfleoedd i ddysgu a meithrin doniau creadigol a doniau mewn chwaraeon, a chynnwys ystod mor eang â phosibl o bartneriaid.

1. Bwriedir y dylai'r Pwyllgor Pwnc gael cyfleoedd i feintoli'r cynnydd mewn cymhwyso'r ymagwedd fras hon, a hynny'n rheolaidd.